GLASTIR

COD Y FFERM GYFAN

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd, bydd cod y fferm gyfan yn denu taliadau ar y gyfradd ganlynol:

- £15 yr hectar y flwyddyn am yr 20 hectar cyntaf
- £8 yr hectar y flwyddyn am y 30 hectar nesaf
- £2.75 yr hectar y flwyddyn am yr 50 hectar nesaf

Er mwyn atal rhai rhag hawlio ddwy waith, ni fydd y ffermydd hynny sydd â chytundeb Tir Gofal neu Tir Cynnal presennol neu estynedig yn cael hawlio'r taliad hwn hyd nes y daw eu cytundebau Tir Gofal neu Tir Cynnal i ben.

Mae'r amodau rheoli canlynol yn berthnasol i'r holl dir sy'n dod o dan y cytundeb:

Rhif	**Amod rheoli**
1	**Rhaid i bob ymgeisydd gydymffurfio â'r gofynion trawsgydymffurfio GAEC ac SMR yn unol â'r meini prawf cymhwysedd.**
2	**Gwarchod ardaloedd cynefin.** Ystyr cynefin yw 1) unrhyw lystyfiant â llai na 25% ohono'n rhywogaethau amaethyddol sydd wedi'u hau, yn unol â rheoliadau EIA **A** 2) yr **HOLL** dir sy'n destun amodau cytundeb Amaeth-Amgylcheddol blaenorol o ran cynnal, adfer, sefydlu neu greu cynefin. **Mae'r mesurau canlynol yn gymwys yn unig i gynefinoedd sy'n bod eisoes:** Rhaid peidio â rholio na llyfnu tir cynefin rhwng 15 Mawrth a 15 Gorffennaf Rhaid peidio â gosod draeniau newydd na newid draeniau sy'n bod eisoes. Nid yw hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw arferol. Ceir diffiniad o waith cynnal a chadw arferol yn y pecynnau canllaw. Peidiwch â chodi mawn. Peidiwch â chlirio ffosydd rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. Peidiwch â gwasgaru slyri, gwrtaith anorganaidd, slag basig, gwymon calchog, slwtsh carthion, slwtsh papur gwastraff na gwastraff arall o'r fferm ac oddi ar y fferm ar y tir hwn. Caniateir

Mae'r manylion hyn yn dal i fod o dan ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.
Mai 2010

	gwasgaru dom buarth dim ond lle caniateir hynny gan un o opsiynau cynefin penodol Glastir. Peidiwch â defnyddio plaladdwyr o unrhyw fath oni bai'ch bod i) yn eu defnyddio'n lleol iawn i sbot-chwynnu a rheoli chwyn hysbysadwy fel marchysgall, ysgall y maes, tafol crych, dail tafol a llysiau'r gingroen, neu rywogaethau tramor fel clymog Japan, rhododendron a Jac y Neidiwr; neu ii) rheoli rhywogaethau goresgynnol ar nodweddion hanesyddol ac adeiladau traddodiadol ac adeiladau fferm. I sgeintio rhedyn â chwynladdwr, rhaid cael caniatâd EIA. Rhaid cael caniatâd CCGC ar safleoedd sydd o fewn 100m i SoDdGA. Mae angen caniatâd AyrA ar safleoedd ger cyrsiau dŵr. Peidiwch â storio tail (dom), silwair na gwastraff y fferm ar dir cynefin, nodweddion tirlun neu archaeolegol nac o fewn 10 metr i gwrs dŵr. **Efallai y bydd eithriadau i'r amodau uchod ar gynefin lle bo gofyn iddynt esgor ar fanteision amgylcheddol y cynllun uwch.**
3.	**Peidiwch â chloddio craig, sgri, tywod, graean, cerrig mân, clai na mawn** (ac eithrio lle bo gennych ganiatâd cynllunio eisoes). Peidiwch â llosgi llystyfiant ar graig.
4.	**Rhaid cadw cofnodion ar gyfer pob cae ynghylch y tail buarth, slyri, gwrtaith, gwymon calchog, calch, plaladdwyr a chwynladdwyr sy'n cael ei roi arno.**
5.	**Peidiwch â thrin y tir o fewn 2m i gwrs dŵr neu gynefin gwlyb.**
6.	**Peidiwch â rhoi tail da byw na dŵr budr ar bridd sydd wedi'i rewi'n galed neu'n ddwrlawn.** Ystyr 'wedi'i rewi'n galed' yw pridd sydd wedi'i rewi am fwy na 12 awr. Nid yw dyddiau pan fydd pridd sy'n rhewi dros nos ond sy'n dadmer yn ystod y dydd yn cyfrif. Rhaid peidio â storio tail, silwair na gwastraff arall y fferm mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn ôl AyrA nac ar lethr o fwy na 7º, fel y'u diffiniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (perygl o 1 bob 100 mlynedd). Eithriad i hyn yw pan fo mwy na 90% o'r daliad o fewn yr ardaloedd hyn. Bryd hynny, rhaid gofyn i Asiantaeth yr Amgylchedd am gyngor, a chydymffurfio ag ef mewn lle storio addas.
7	**Os ydych yn tyfu indrawn, rhaid cadw at yr arferion canlynol:** Rhag i bridd gael ei olchi gan ddŵr, RHAID cadw at UN o'r arferion canlynol:

Mae'r manylion hyn yn dal i fod o dan ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.
Mai 2010

	1. Troi'r pridd ar ôl y cynhaeaf ag aradr gynion rhag iddo gywasgu 2. Hau rhygwellt o dan yr indrawn 3. Chwalu tir sydd wedi'i gywasgu gan olwynion tractor â phigyn a phlannu gorchudd gaeaf. Ar lethr o fewn na 7º sy'n risg uchel yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd neu ger cwrs dŵr, rhaid sicrhau llain glustogi sydd o leiaf 2m o led wrth droed y cae i rwystro gwaddodion rhag cael eu golchi oddi ar y cae.
8	**Peidiwch â chyflwyno unrhyw anifail neu blanhigyn nad yw'n gynhenid**, heblaw at ddiben cynhyrchu amaethyddol (gan gynnwys anifeiliaid hela) neu gynhyrchu coed masnachol, **ar dir o dan gytundeb**.
9.	**Diogelwch hen goed a choed mewn caeau.** Peidiwch â niweidio coed trwy drin y tir yn rhy agos at eu gwreiddiau. Diogelwch nhw rhag drifft sgeintio ac ati. Peidiwch â thrin tir o dan y canopi. Os gwelwch fod coeden neu ran o goeden farw neu heintiedig yn beryglus, cewch ei symud. Peryglus yn yr achos hwn yw ei bod yn ddigon agos i lwybr cyhoeddus neu ganiataol fel y gallai deunydd sy'n cwympo oddi arni gau'r llwybr neu lle bo'n ddigon agos i lwybrau mynediad neu adeiladau y gallai canghennau gwympo arnyn nhw a'u difrodi. Pan fyddwch yn torri coeden sy'n berygl neu ran ohoni, dylech dynnu llun i ddangos ei bod yn beryglus os gofynnir ichi wneud hynny.
10	**Dylid cadw adeiladau traddodiadol ac olion adeiladau,** waeth beth yw eu cyflwr oni bai eu bod yn beryglus. Peryglus yn yr achos hwn yw bod yr adeilad yn ddigon agos i lwybr cyhoeddus neu ganiataol fel y gallai deunydd sy'n cwympo oddi arnyn nhw gau'r llwybr neu lle bo'n ddigon agos i lwybrau mynediad neu adeiladau y gallai rhannau ohonynt eu difrodi. Pan fyddwch yn dymchwel adeilad traddodiadol neu ran ohono sydd yn eich barn chi'n beryglus, bydd gofyn ichi dynnu llun i ddangos ei fod yn beryglus os gofynnir ichi wneud hynny.
11.	**Peidiwch â difrodi nodwedd hanesyddol sydd wedi'i nodi ar fap y cytundeb.** Mae difrod i nodwedd hanesyddol yn golygu UNRHYW RAI o'r canlynol: • Tarfu ar y pridd neu dyrchu ynddo, yn enwedig o dan yr uwchbridd • Dympio neu storio deunydd, gan gynnwys creu storfa dros dro • Codi deunydd gan gynnwys cerrig, pridd neu isbridd • Arwyddion gweledol o erydu byw (colli a thyrchu uwchbridd neu isbridd) gan anifeiliaid neu gerbydau neu waith amaethyddol

Mae'r manylion hyn yn dal i fod o dan ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.
Mai 2010

	• Plannu coed (ac eithrio plannu coed 'tebyg am eu tebyg' yn lle coed eraill mewn tir parc dynodedig) • Caniatáu i brysgwydd ddatblygu • Aredig neu ail-hau • Synud nodweddion cerrig unigol Rhaid gofalu nad oes unrhyw ddifrod i unrhyw "Barc Hanesyddol" neu "Ardd Hanesyddol" sydd ar Gofrestr y Parciau a'r Gerddi Hanesyddol. Mae difrod yn golygu UNRHYW RAI o'r canlynol: • Codi cynlluniau plannu hanesyddol sydd wedi'u nodi ar y gofrestr • Codi neu darfu ar nodweddion adeiladau neu dirwedd • Ailfodelu'r tirwedd mewn ffordd a fydd yn newid y topograffi'n fawr • Dympio deunydd
12	**Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus ar dir, gan gynnwys peidio â'u rhwystro, a'u hadfer ar ôl eu haredig.** Rhaid caniatáu mynediad ar droed i bob tir y nodir ei fod ar gael ar gyfer mynediad o'r fath ar fapiau a baratowyd o dan Ddeddf Hawliau Tramwy 2000
13	**Er mwyn diogelu gwerth y tirwedd, rhaid cadw tir y cytundeb yn lân o sbwriel fel hen gerbydau, hen ffensys, deunydd plastig a hen offer domestig.** Dylech glirio sbwriel o'r safle cyn dechrau'r cytundeb.

Mae'r manylion hyn yn dal i fod o dan ystyriaeth y Comisiwn Ewropeaidd.
Mai 2010